Nwyddau

Mae'r daflen ffeithiau hon yn amlinellu'r gyfraith ynglŷn â phrisio a gwerthu nwyddau, y dewisiadau sydd gennych os nad yw'r nwyddau'n foddhaol, a'r camau y gallwch eu cymryd i ddatrys eich problem.

Prisiau- beth ddywed y gyfraith

Rhaid i bob gwerthwr **arddangos** y **pris llawn** yn glir, gan gynnwys TAW, o'r holl nwyddau sydd ar werth i ddefnyddwyr preifat. Rhaid i nwyddau a werthir yn rhydd, megis ffrwythau a llysiau neu betrol, ddangos y pris fesul uned mewn unedau metrig, ond gellir cynnwys hefyd y pris fesul unedau Imperial (er enghraifft, y pris fesul kilo a'r pris fesul pwys).

Os ydyw gwerthwr yn gwneud camgymeriad ynglŷn â phris y nwyddau sydd ar werth, allwch chi ddim mynnu fod y nwyddau'n cael eu gwerthu yn ôl y pris dangosol. Mae'n drosedd i werthwr roi gwybodaeth gamarweiniol ynglŷn â phrisiau nwyddau, megis arddangos pris yn is na'r pris a delir neu awgrymu beth sy'n debygol o ddigwydd i'r pris (er enghraifft, "Cynyddu yn y Gyllideb') Yn yr achosion hyn, fe ddylech gysylltu â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

Os ydych chi'n archebu nwyddau am brys y cytunwyd arno, all y gwerthwr ddim cynyddu'r pris pan ddosberthir y nwyddau oni bai eich bod wedi cytuno ymlaen llaw y gall y pris newid. Os oes cynnydd sylweddol yn y pris, efallai y gallwch ddadlau fod hwn yn **amod annheg** ac nad ydych yn ymrwymol iddo. Fydd hyn ddim yn berthnasol os rhoddwyd yr hawl i chi i ganslo petai'r pris terfynol yn rhy uchel

Nwyddau - beth ddywed y gyfraith

Pan fyddwch chi'n prynu nwyddau **newydd** o siop neu stondin ar y farchnad, mae'r gyfraith (Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd) yn bennaf) yn dweud fod yn rhaid iddynt:

- **gyd fynd â'u disgrifiad.** Mae hyn yn golygu fod yn rhaid iddynt fod fel y'u disgrifiwyd gan y gwerthwr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddisgrifiad sydd ar y pecynnu**.** Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae'n golygu hefyd fod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw honiadau a wneir amdanynt mewn hysbysebion; *a*
- **bod o ansawdd boddhaol**. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i'r nwyddau hefyd fod yn addas i'w diben a chwrdd â safonau y byddai unrhyw berson rhesymol yn eu disgwyl. Mae hyn yn cynnwys golwg a gwedd orffenedig y nwyddau ac os ydyn nhw'n ddiogel, yn nwyddau sy'n para ac yn rhydd o unrhyw ddiffygion, yn cynnwys mân ddiffygion

Mae gennych yr un hawliau wrth brynu nwyddau mewn **sêl.**

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Pan fyddwch chi'n prynu nwyddau **ail-law**, mae'r amodau uchod yn dal yn berthnasol ond bydd angen i chi hefyd gymryd i ystyriaeth **oedran** y nwyddau a'r **pris** daloch chi.

Fyddwch chi **ddim** yn gallu cymryd achos yn erbyn y gwerthwr os:

- ydych chi wedi **archwilio'r** nwyddau cyn eu prynu a bod y diffyg yn amlwg; *neu*
- yw'r gwerthwr wedi **nodi'r diffyg** cyn i chi eu prynu (oni bai fod diffygion eraill ac nid yw'r nwyddau yn cyd-fynd â'u disgrifiad) *neu*
- ydych chi **wedi newid eich meddwl**, neu wedi dod o hyd i nwyddau rhatach yn rhywle arall (oni bai bod y gwerthwr wedi cytuno i chi wneud hyn); *neu*
- ydych chi wedi **difrodi** neu **newid** y nwyddau ac wedi **methu gofalu** amdanynt yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau; *neu*
- ydych chi wedi'u defnyddio am beth amser ac fe achoswyd y broblem gan **draul a gwisgo arferol**; *neu*
- ydyw'r nwyddau wedi parhau am y cyfnod rhesymol o amser y gellid disgwyl iddynt wneud hynny.

Sut bynnag, mae'n rhaid i nwyddau o ansawdd anfoddhaol o hyd gyd-fynd â'u disgrifiad.

Eich dewis o gamau i'w cymryd

Arian yn ôl

Bydd gallu dychwelyd nwyddau diffygiol a chael eich arian yn ôl neu beidio yn dibynnu ar ba mor hir y bu'r nwyddau gennych. Os fyddwch chi'n dychwelyd (**gwrthod**) nwyddau diffygiol yn fuan ar ôl eu prynu, fe ddylech gael yr hawl am ad-daliad. Sut bynnag, os cadwch chi'r nwyddau am amser afresymol heb eu gwrthod, ystyrir eich bod wedi eu derbyn ac felly yn colli'r hawl hwn. Os ydych chi'n gwrthod y nwyddau o fewn amser rhesymol, nid oes rhaid i chi dderbyn atgyweiriad neu amnewidiad.

Amnewid neu atgyweirio

Os brynoch chi'r nwyddau ar neu ar ôl 31 Mawrth 2003, fe allwch ofyn i'r masnachwr am amnewid neu atgyweirio'r nwyddau yn rhad ac am ddim os ydyn nhw'n ddiffygiol. Os gwnewch chi hyn o fewn chwe mis i dderbyn y nwyddau, a'i fod yn rhesymol i ddisgwyl iddynt fod wedi parhau am y cyfnod y buon nhw gyda chi, tybir fod y broblem yno pan brynoch chi'r nwyddau, oni bai fod y gwerthwr yn gallu dangos fel arall. Sut bynnag, fe allwch barhau i ofyn am amnewid neu atgyweirio i fyny hyd at chwe blynedd o'r dyddiad y prynoch chi'r nwyddau, os ydyw'n rhesymol iddynt fod wedi parhau mor hir â hynny. Yn yr achos hwn, mae i fyny i chi i ddangos fod y nwyddau'n ddiffygiol adeg y prynu. Po hiraf y bu'r nwyddau gyda chi, y mwyaf anodd fydd hi i brofi fod y diffyg yno adeg y prynu.

Os:

- ydyw'n amhosibl amnewid neu atgyweirio'r nwyddau; *neu*
- os byddai amnewid neu atgyweirio yn afresymol o gostus i'r masnachwr o'u cymharu ag atebion amgen; *neu*

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- os yw'r masnachwr yn methu amnewid neu atgyweirio'r nwyddau o fewn amser rhesymol i gytuno gwneud hynny neu'n achosi anghyfleustra sylweddol; *neu*
- os yw'r nwyddau wedi gweithio am beth amser cyn mynd yn ddiffygiol neu dim ond un o'u swyddogaethau sy wedi mynd o le

yna:-

- fe allwch ofyn am ad-daliad rhannol neu ad-daliad llawn. Gall swm yr arian dderbyniwch chi yn ôl gael ei leihau er mwyn cymryd i ystyriaeth y defnydd gawsoch chi o'r nwyddau.

Iawndal

Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os: -

- yw'r cytundeb wedi'i dorri (**tor-cytundeb**) er enghraifft nid yw'r nwyddau yn cyd-fynd â'r disgrifiad neu heb fod o ansawdd boddhaol; *neu*
- ydych wedi mynd i gostau ychwanegol neu anghyfleustra achos tor-cytundeb neu esgeulustra, er enghraifft, gorfod gwneud galwadau ffôn neu gymryd amser o'r gwaith i aros am atgyweiriwyr sy ddim yn dod; *neu*
- oes angen i chi atgyweirio neu amnewid eitemau eraill sydd wedi'u difrodi gan y nwyddau diffygiol; *neu*
- yw'r gwerthwr wedi gwneud datganiad ffug ynglŷn â'r nwyddau er mwyn eich perswadio i'w prynu (er enghraifft, wedi dweud wrthych fod peiriant golchi yn gallu dal mwy o ddillad na model arall, a hynny ddim yn wir); *neu*
- ydych wedi dioddef anaf oherwydd bod y nwyddau neu wasanaethau yn beryglus neu anniogel**;** *neu*
- os ydych wedi derbyn gwaith atgyweirio a'r gwaith hwnnw yn troi allan i fod yn anfoddhaol

Mae swm yr iawndal yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tor cytundeb neu'r anaf a gallai gynnwys cost atgyweirio'r nwyddau mewn man arall neu gost cael nwyddau eraill yn eu lle. **Fe ddylech chi bob amser gael cyngor cyfreithiol cyn penderfynu derbyn iawndal am anaf personol neu beidio.**

Os ydyw'r nwyddau'n anniogel, riportiwch y gwerthwr i Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

Gwarantau

Os gwarchodir y nwyddau gan warant, efallai y bydd gennych hawliau ychwanegol o dan y warant. Ni all y warant fynd â'ch hawliau statudol oddi wrthych (yr hawliau a roddir i chwi mewn cyfraith statud)

Nodyn credyd

Nid oes rhaid i chi dderbyn nodyn credyd os ydych chi'n dychwelyd nwyddau diffygiol, ond fe ddylech chi fod yn ymwybodol wrth dderbyn nodyn credyd, na fyddwch chi fel arfer yn gallu cymryd unrhyw gamau i gael ad-daliad. Os penderfynwch chi dderbyn nodyn credyd, fe ddylech chi wirio os oes rhaid ei ddefnyddio o fewn amser penodol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Troseddau
Os ydyw'r gwerthwr **mewn busnes** (yn hytrach na bod yn werthwr preifat) gall **trosedd** gael ei chyflawni os ydyw'r gwerthwr:-

- yn gwerthu nwyddau sy'n **anniogel**; *neu*
- yn rhoi **disgrifiad ffug** o'r nwyddau; *neu*
- yn hysbysebu **pris camarweiniol**.

Os ydych chi'n credu bod un o'r rhain yn berthnasol i'ch sefyllfa chi, ddylech chi ddim dychwelyd y nwyddau i'r gwerthwr hyd nes y byddwch wedi riportio'r mater i Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506 ac yn achos anaf personol, hyd nes y byddwch wedi cymryd cyngor cyfreithiol ynglŷn â'ch cais.

Rheolau arbennig os daloch chi trwy gredyd
Os ddefnyddioch chi eich cerdyn credyd neu os trefnodd y gwerthwr y cyllid i chi i dalu am y nwyddau ac fe gostiodd yr eitem mwy na £100 a llai na £30,000, gall y cwmni ddarparodd y credyd fod **yr un mor atebol** am unrhyw dor cytundeb. Mae hyn yn golygu, os bydd y nwyddau'n ddiffygiol, y gallwch hawlio eich arian yn ôl oddi wrth y cwmni cerdyn credyd neu gwmni ariannol. Nid yw hyn yn berthnasol i drafodion cerdyn debyd (er enghraifft, Switch neu Delta) lle daw'r arian yn syth o'ch cyfrif banc.

Os trefnodd y gwerthwr y benthyciad ariannol, efallai y gallwch ganslo'r cytundeb benthyciad.

Sut i ddatrys eich problem

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth yw'ch hawliau, cysylltwch â'r gwerthwr. Y **gwerthwr** ac nid y gwneuthurwr sy'n gyfrifol am ddelio â'ch cwyn. Dilynwch y camau isod

- **peidiwch â defnyddio'r nwyddau mwyach**
- **dowch o hyd i brawf eich bod wedi prynu**. Bydd derbynneb, taleb cerdyn credyd neu fonyn siec yn gwneud y tro. Os nad oes un o'r rhain gennych, gallai nwyddau o'r un brand neu'r defnydd pacio fod yn ddigonol . Os oedd rhywun gyda chi pan brynoch chi'r nwyddau gofynnwch iddyn nhw eich cefnogi.
- **os ydych yn credu fod trosedd wedi'i chyflawni** (gweler uchod), peidiwch â dychwelyd yr eitem hyd nes y byddwch wedi cysylltu â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506
- **cysylltwch â'r gwerthwr, a hefyd y cwmni credyd os yn berthnasol,** cyn gynted ag y dowch o hyd i'r diffyg**.** Ewch nôl a'r nwyddau, gyda'r prawf o'u prynu a gofynnwch am gael siarad â'r rheolwr neu'r perchennog. Ar y llaw arall, ysgrifennwch at y rheolwr neu'r perchennog, gan amgáu **copi** o'ch prawf o brynu'r eitem. Cadwch gopi o'r llythyr. Esboniwch eich problem yn bwyllog ond yn gadarn a gofynnwch am **ad-daliad llawn**, **amnewidiad**, **atgyweiriad** am ddim, neu **iawndal**, a rhowch derfyn amser.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydyw'r gwerthwr am anfon y nwyddau at y gwneuthurwr i'w harchwilio, gofynnwch pa mor hir fydd hyn yn debygol o gymryd. Rhaid dychwelyd y nwyddau o fewn amser rhesymol, o fewn pythefnos er enghraifft. Os ydych yn gofyn am ad-daliad llawn, gwnewch yn glir na ddylid cyflawni unrhyw atgyweiriadau heb eich caniatâd.

- **Os ydych chi'n dal yn anfodlon**, ceisiwch ddarganfod os yw'r gwerthwr yn cael ei warchod gan gymdeithas fasnach sy'n cynnig gwasanaeth **cymodi** neu **gyflafareddu.** Mae'r cymodi fel arfer am ddim ac ni fyddai fel arfer yn eich rhwystro rhag cymryd achos cyfreithiol petaech chi'n anfodlon â'r penderfyniad. Fel arfer mae'n rhaid talu am gyflafareddu ac mae'n rhwymo'n gyfreithiol. Os hoffech chi ystyried yr opsiynau hyn, cysylltwch â'r gymdeithas fasnach berthnasol.
- **Os na allwch chi gytuno ar beth achosodd y diffyg,** efallai y bydd yn angenrheidiol i chi gael barn arbenigol. Gellir cael hyn trwy gymdeithas fasnach, neu fe allai'ch arbenigwr fod yn unrhyw un sy'n ddigon cymwys ac sy'n barod i gyflwyno'u canfyddiadau yn ysgrifenedig. Fel arfer mae'n rhaid talu am adroddiadau, ond efallai y gallwch gael y gwerthwr i gytuno talu hanner y gost. Os bydd yn rhaid i chi dalu rhan o'r gost neu'r cyfan o'r gost, fe ddylech chi gytuno gyda'r gwerthwr ymlaen llaw ynglŷn â'r dewis o arbenigwr ac y byddwch chi'ch dau yn ymrwymol i ganfyddiadau'r arbenigwr. Fe ddylech chi wedyn allu adfer eich cyfraniad chi os ategir y gwyn.
- **Os nad yw'ch cwyn wedi'i datrys** ysgrifennwch at y gwerthwr a'r cwmni cyllid (os yn berthnasol) gan ail adrodd eich cwyn a'r camau a gymerwyd. Dywedwch eich bod yn rhoi 14 diwrnod iddynt i ddatrys y broblem, neu fe fyddwch yn ystyried cymryd camau cyfreithiol**.**. Anfonwch y llythyr gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi** gyda chopi i brif swyddfa'r cwmni. **Cadwch gopïau** o bob gohebiaeth.
- **Os ydyw'r gwerthwr yn gwneud cynnig amgen,** fe allwch naill ai ei **dderbyn** neu **barhau i drafod.** Byddwch yn realistig yn yr hyn y byddwch yn ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys.
- **Os nad yw'r gwerthwr yn ateb eich llythyron,** neu'n gwrthod gwneud unrhyw beth, neu'n gwneud cynnig terfynol nad ydych yn fodlon ei dderbyn, yr unig ddewis arall sydd gennych yw mynd i'r llys. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf.** Cyn dechrau achos llys mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o **dystiolaeth.** Eich cyfrifoldeb chi yw profi'ch achos. Mae angen i chi ddarganfod hefyd os oes gan y cwmni **ddigon o arian i dalu eich hawliad**. Nid yw'n werth erlyn person neu gwmni sydd heb arian.

Os ydych wedi colli arian trwy nwyddau diffygiol, peidiwch â gwastraffu mwy o arian ar achos na allwch ei ennill.

Nwyddau a brynwyd oddi wrth werthwr preifat

Os ydych chi'n prynu nwyddau oddi wrth werthwr preifat oedd ddim yn eu gwerthu fel busnes, nid oes gennych yr un hawliau. Nid oes rhaid i'r nwyddau fod o ansawdd boddhaol, ond rhaid iddynt gyd-fynd â'u disgrifiad. Os weloch chi'r nwyddau mewn hysbyseb, cadwch yr hysbyseb fel tystiolaeth.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Nwyddau a werthir fel rhan o wasanaeth

Os ydych chi'n prynu nwyddau fel rhan o wasanaeth (er enghraifft, wrth gael cegin wedi'i gosod) gwarchodir eich hawliau gan **Ddeddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982**.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dechrau achos llys
- Cyflenwr yn mynd allan o fusnes
- Gwarantau
- Credyd
- Diogelwch
- Gwasanaethau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Mehefin 2008, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr